**Rhamant Patagonia gan Fabio Lewis, Y Cymro, Mehefin 16, 2001**



**DYMA gyfweliad Fabio Lewis, Dolavon gyda'r Parchedig Dafydd Henri Edwards yn Nhrelew. Ymddangosodd y cyfweliad yn rhifyn cyfredol o "Adlais" sy'n bapur newydd dosbarthiadau Cymraeg Dyffryn Camwy a thu hwnt.**

## Ry'n ni bron iawn wedi anghofio ein Saesneg!

# Rhamant Patagonia

16 Mehefin, 2001.

***Lle wnaeth eich diddordeb am y Wladfa gychwyn?***

Wel, rôn i wedi bod eisiau dod i'r Wladfa oddi ar pan o'n i'n blentyn bach iawn oherwydd fe ddaeth David Rees Jones o Ddrofa Dulog yn brifathro ar ysgol fy mhentref. Ond yn anffodus roedd wedi ymddeol cyn fy mod i wedi mynd i'r ysgol gynradd yn ardal fy nghartref i. Roedd y rhamant o wybod am Jones Patagonia wedi deffro diddordeb am y lle bryd hynny. Ac yna, mi ges i lyfr "Bandit yr Andes" pan yn blentyn - mi wnaeth hynny wrth gwrs greu diddordeb.

***Dach chi'n frodor o Sir Benfro?***

Mae Enid fy ngwraig yn dod o Sir Benfro, o Aber Cuch, pentref o grefftwyr oedd yn dibynnu ar y plasau oedd o gwmpas. Dwi'n dod o bentref Ffair Rhos, pentref sy'n mynd yn ôl i ddyddiau yr hen fynachlog Ystrad Fflur, lle roeddan nhw'n cynnal ffeiriau. Roedd un o'r ffeiriau pwysig yn cael ei chynnal yn ein pentref ni. Mae llawer o ddylanwad yr hen fynachlog, sef dylanwad y diwylliant oedd ynghlyn â'r hen fynachlog, yn dal i aros er bod cymaint o amser ar ôl hynny.

***Wnaethoch chi ofyn i Gymdeithas Cymru Ariannin i ddod fan hyn?***

Ac yna, pan welais i 'mod i'n dod i oedran ymddeol, a chyfle gyda mi i fynd i ffwrdd a chael rhyw fath o doriad ar ddechrau ail gyfnod bywyd, ar ôl dod yn rhydd o waith, fe ddaeth cymydog, y gweinidog Hywel Mudd yn ôl wedi cael tri mis wrth fodd ei galon yn y Wladfa. Dywedodd: "Pam nag ei di?" O'r gorau ddywedais i, a dyma fi'n gofyn i Gymdeithas Cymru Ariannin. Dyma nhw wedyn yn galw ni'n dau am gyfweliad. Rôn i am fod yno am flwyddyn; roedd Enid am fod am dri mis ac fe wnaethon ni gyfaddawd drwy ddod am chwe mis.

***Ers faint o amser dach chi yma?***

Dyn ni hanner ein ffordd ar hyn o bryd. Newydd orffen tri mis ac wedi cael y nod ar ein pasport, ac ryn ni'n barod am dri mis bach arall.

***Dach chi wedi bod yn pregethu ym mhob capel yn y dyffryn?***

Wel, dyn ni ddim wedi bod ym mhob un. Dyn ni'n dal i obeithio y ca'i gyfle i fynd i'r lleill. Y ddau brif gapel yma wrth gwrs yw'r Tabernacl, Trelew a Bethel, y Gaiman. Ryn ni hefyd wedi bod ym Mryn Crwn, Drofa Dulog, Carmel Dolavon, Bethlehem, Treorcki ac ym Methesta. Wedyn yn Seion, Esquel a Bethel, Trevelin yn yr Andes. Dw i'n dal i obeithio cael mynd i Le Cul, Moreiah, ac efallai un neu ddau arall.

***Roeddach chi'n sôn am eich profiadau dach chi wedi eu cael yn yr Ariannin. Beth yw eich hoff brofiadau?***

Y profiad cyntaf oedd hedfan o Fuenos Aires lawr i Drelew a gweld y tir yn edrych mor sych ag mor ddi-ffaith. Welson ni ddim llawer o ddim byd oddi tano wrth ein bod ni'n hedfan i lawr. Yna glanio yn Nhrelew â'r cwmni o Gymry yno yn chwifio'r ddraig goch a phawb yn siarad Cymraeg. Roedd y croeso'n gynnes – a dyna'r argraff fawr ein bod ni sydd ddim yn medru siarad yr iaith Sbaeneg, braidd yn hen i'w dysgu yn gyflym, ac yn medru byw ein bywyd yn gyfan gwbl trwy'r iaith Gymraeg. Ryn ni bron iawn wedi anghofio ein Saesneg!

***Be dach chi'n ei feddwl rwan ar ôl bod yn pregethu yn y capeli am sefyllfa'r iaith Gymraeg?***

Rwyf newydd gael yr argraffiad newydd o lyfr R. Bryn Williams, ac yn y llyfr gwreiddiol a ysgrifennwyd yn 1965, fe ddywed ef y byddai'r iaith Gymraeg yn marw yma fel iaith sgwrsio mewn chwarter canrif. Doedd e ddim yn gywir. Mae yna ddigon o bobl yn darogan yr un peth ar hyn o bryd. Rwy'n fawr obeithio nad ydyn nhw'n gywir. Mae'r arwyddion yn dangos y bydd yn rhaid gwneud ymdrech fawr, a dw i'n eithaf ffyddiog y gwneir yr ymdrech fawr i gadw'r iaith. Heb hynny, bydd prif arbenigrwydd Patagonia a'r Wladfa yn cael ei golli oni bai fod y bobl yma yn medru siarad yr iaith.

***Roedd y bobl yn y capeli yn cadw'r diwylliant a'r iaith. Be dach chi'n ei weld heddiw yn y Wladfa?***

Be ydy'r sefyllfa grefyddol yn y capeli?

Gyda'r bobl yr 'wy'n cwrdd â nhw fwyaf, y mae'r hen ddull y ces i fy magu ynddo yn dal i fod, lle'r oedd y diwylliant a'r iaith yn mynd gyda chrefydd, ac yn y capel roedd y rhain yn cael eu meithrin. Mae'n bosib nad yw hynny ddim yn golygu'r un fath i'r bobl ifainc yma. Fe fydde'n drist gen i i weld y ddau yn cael ei wahanu oddi wrth ei gilydd. I mi, mae crefydd a diwylliant yn mynd law yn llaw. Fel yna 'y magwyd i, a fel'na 'wy wedi cael y fraint o fyw ar hyd fy amser. 'Wy'n fawr obeithio y ceith bobl yma hefyd barhau y traddodiad yma.

***Be sydd gennych chi'n rhagor i'w wneud o fewn y tri mis nesaf?***

Wel, 'wy'n fawr obeithio y ca'i weld rhoi cofeb ar safle Tair Helygen. Maen nhw wedi bod wrthi dwi'n deall ers ryw dair blynedd yn trefnu; er bod pethau'n araf yn symud, fe ddylai ddod i ben. Mae popeth yn barod nawr, dim ond y tywydd all fod yn rhwystr i ni. Gan gofio fod tywydd yr Ariannin yn garedig iawn, fe ddylai fod yn bosibl tua mis Mehefin. Carwn i weld hynny'n digwydd. Rwyf wedi cael y fraint o ddod â Beibl pulpud yn y cyfieithad newydd i bulpud Tabernacl a Bethel. Rwy'n bersonol hefyd eisiau cael mynd i Ddyffryn y Merthyron.

***Oes gennych chi deulu yng Nghymru?***

Mae gyda fi un yn fwy ers i ni ddod mas yma oherwydd mae Noa Rhys, wyr bach i ni, wedi cael ei eni yng Nghaerdydd. Mae gyda ni dri o blant a bellach, bump o wyrion.

***Dach chi'n edrych ymlaen felly i weld yr wyr newydd?***

Yn sicr, dyma fydd y digwyddiad mawr i ni pan laniwn ni'n ôl. Be dach chi'n mynd i'w wneud wedyn yng Nghymru? Does gen i ddim syniad beth 'wy'n mynd i'w wneud. Fe licien i gymryd rhywbeth newydd i fyny. Mae bod yn nosbarthiadau Helen Prosser yn ystod yr wythnosau diwethaf ma wedi agor posibilrwydd o ddysgu Cymraeg i oedolion. Fe garwn i hefyd i roi mwy o amser i ysgrifennu. Fe ddylai hynny fy nghadw i i fynd, ac wrth gwrs fe fydd yna alw arna i i lanw fel gweinidog a phregethwr.